

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Huw Antur

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Gorffennaf 2il 2013

**Presennol:** Huw Antur (Cadeirydd), Ian Trow, Beryl Hughes Griffiths, Catrin Roberts, Huw Roberts, Dewi Jones

Alan Evans (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1181 Croesawyd pawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Arwel Lloyd Jones, Karl Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones ac Alwyn Roberts

1182 Nid oedd datganiadau o fuddiant.

1183 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1184 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mehefin 4ydd 2013.

1185 **Materion yn codi o'r Cofnodion:**

- i. **Toiledau:** Diolchwyd i Karl Jones ac i Ian Trow am baentio drysau'r toiledau; mae mwy o waith cynnal a chadw ar y gweill.

Mae Martin Jones wedi cynllunio a gosod blychau i dderbyn cyfraniadau ariannol yn y toiledau. **Cytunwyd** i hysbysu Arriva o hyn gyda'r cais bod teithwyr yn cyfrannu yn ariannol. Bydd y Clerc yn darparu arwydd i'r perwyl fod cyfraniadau yn gymorth i gadw'r adnodd ar agor; bydd hefyd yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr iawn yr Eagles tuag at gynnal y ddarpariaeth. **Gweithredu: Clerc**

Mae Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf wedi cytuno i ddal perchnogaeth y toiledau mewn enw; bydd y Clerc a'r Cadeirydd yn llunio cytundeb yn cadarnhau y bydd Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn gyfrifol am bob cost. **Cytunwyd** i anfon eto at yr Adran berthnasol yng Ngwynedd i symud ymlaen gyda phwrcasu'r toiledau. **Gweithredu: Y Cadeirydd a'r Clerc**

- ii. **Y Fynwent Newydd** Derbyniwyd adroddiad is-bwyllgor y fynwent a gyfarfu ar 5/6/13. **Cytunodd** Alan Evans i gynnull nifer o gynghorwyr i greu llwybr rhwng y maes parcio a'r fynwent. **Gweithredu: Alan Evans**

Mae angen paentio'r gwaith haearn ar y ffiniau a rhoi sylw i fondo'r porth, a chytunwyd i ofyn am ddyfynbrisiau gan bobl leol. **Gweithredu: Clerc.** Mae angen holi a oes cymorth ariannol tuag at y gwaith cynnal a chadw hwn. **Gweithredu: Swyddog Ariannol.**

Diolchwyd i'r Cynghorydd Sir am sicrhau bod sbwriel yn cael ei gasglu yn rheolaidd o'r fynwent. Bydd bin brown hefyd ar gael, a gofynnir yn garedig i bobl ddefnyddio'r bin brown ar gyfer deunydd organig yn unig.

Diolchwyd i Karl Jones am ei waith cynnal a chadw wrth y Gilfach Goffa. Bydd y faner groeso yn cael ei gosod at yr haf. **Gweithredu: Karl Jones, Ian Trow**

- iii. **Yr iaith ym Mhenllyn** - bu'r Cadeirydd yn trafod gyda dwy o swyddogion Uned Iaith y Llywodraeth. Wrth gwblhau holiadur, mae'n bosib cael cymorth i weithredu. Cytunwyd i ddwyn y mater i sylw Partneriaeth Penllyn (a Chlerc Cyngor Cymuned Llandderfel, a gododd y mater i gychwyn). **Gweithredu: Clerc**

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Huw Antur

---

- iv. Ci yn peri dychryn: Gwnaeth Swyddog Cymunedol yr Heddlu addo alw heibio teulu'r.
- v. Fflatiau: Derbyniwyd llythyr gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd yn cydnabod sylwadau'r Cyngor – y Clerc i geisio trefnu cyfarfod. Cynigodd Swyddog o Gymdeithas Tai Clwyd gyfarfod gyda'r Cyngor yn ystod y dyddiau nesaf. **Gweithredu: Clerc**  
Bydd y Cyngh. Alan Evans yn trafod pryderon yn ei gyfarfod nesaf gyda'r Arolygydd Mark Armstrong o Heddlu Gogledd Cymru. **Gweithredu: Alan Evans**

### 1186 **Gohebiaeth:**

#### **Parc Cenedlaethol Eryri:**

- i. Rhoddodd Beryl Hughes Griffiths adroddiad o gyfarfod a fynychodd ar 11/6/13 pryd gafwyd cyflwyniadau gan swyddogion ar amrywiol agweddau o waith Parc Cenedlaethol Eryri.
- ii. Derbyniwyd rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i ddau gynllun dŵr Nant Hir Cynllwyd.

#### **Gwynedd:**

- i. Derbyniwyd llyfryn gwybodaeth am arwisgo ffyrdd.
- ii. Derbyn llythyr parthed culfan bws wrth yr Hen Felin yn mynegi bydd arwydd mwy o faint mewn gwell lleoliad yn cael ei osod i rybuddio pobol i beidio a pharcio yno. Diolchwyd i'r Cyngh. Alan Evans am fynychu'r ymweliad safle ar ran y Cyngor Cymuned.

#### **Un Llais Cymru:**

- i. Rhoddodd Huw P Roberts adroddiad o gyfarfod Ardal yn Nhrawsfynydd ar 26/6/13 gan gyfeirio yn benodol at y gefnogaeth sydd ar gael i greu gwefan cymunedol, a hefyd at yr ymgais i gofio milwyr o Gymru yn ystod y Rhyfel Mawr yng ngwlad Belg. Cytunwyd i ddwyn mater y wefan i sylw Partneriaeth Penllyn ac i wneud ymholiadau pellach. Cytunwyd i osod mater y gofeb ar Agenda'r cyfarfod nesaf ar ôl i'r Clec ymchwilio ymhellach. **Gweithredu: Clerc**
- ii. Derbyniwyd copïau o *Y Llais* a'r llythyr chwarterol.
- iii. Cytunwyd i beidio anfon cynrychiolwyr i'r cyfarfodydd hyfforddiant sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

#### **Arall:**

- i. Adroddwyd bod y Clerc wedi ateb Holiadur Arsyllfa Wledig Cymru ar Wasanaethau.
- ii. Derbyniwyd Adroddiad Blynnyddol yr Ombwdsman.
- iii. Cyfeiriwyd aelodau at yr Holiadur Gwasanaethau Cyhoeddus (ar lein).
- iv. Nodwyd yr wybodaeth am warchod ceffylau.
- v. Cyfeiriwyd aelodau at yr Arolwg barn ar gynllun drafft Cynllunio Economaidd (ar lein)

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Huw Antur

---

### 1187 Materion ariannol

- i Awdurdodwyd talu biliau'r mis
- ii Materion ariannol y Fynwent: cytunodd Clec y Fynwent a'r Swyddog Ariannol ar sut i ddsbarthu'r gwaith rhyngddynt. Bydd angen llunio swydd ddisgrifiadau i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Daeth nifer o faterion i'r amlwg yn ddiweddar, megis nad oes hawl bellach i werthu plotiau penodol ymlaen llaw oherwydd defnyddir peiriannau bellach i wneud y gwaith torri. Cytunwyd i gynnal is-bwyllgor i edrych ymhellach i'r materion hyn: Y Cadeirydd, Y Cynghorydd Sir, Y Swyddog Ariannol a'r Clerc.
- iii Mae Mantell Gwynedd bellach yn gweinyddu cyflogau'r Cyngor.
- iv Dosbarthwyd ffurflenni costau teithio i 2 gynghorydd.
- v Derbyniwyd gwybodaeth am newid yn ffioedd Hacker Young.

1188 **Partneriaeth Penllyn** - adroddodd y cynrychiolwyr fod y Cwmni bellach yng ngofal cynnal a chadw rhai o safleoedd Parc Cenedlaethol Eryri; mae Mantell Gwynedd yng ngofal cyflogau'r Rheolwr Asedau Cymunedol a'r Rheolwr Safleoedd. Diolchwyd i Bartneriaeth Penllyn am y cynnig o gynrychiolydd i gyflwyno gwaith y Bartneriaeth i'r Cyngor. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i Catrin Jones o Gwmni Menter a Busnes i'r cyfarfod nesaf i roi cyflwyniad ar y gwaith yn yr Henblas. **Gweithredu: Clerc**

### 1189 Materion lleol

- i. Cytunwyd i roi mater lleoliad yr arosfan bws ysgol ar agenda Medi. Cytunodd Alan Evans i drafod gyda'r Peiriannydd mater y moelni rhwng tir yr ysgol a'r tai gyferbyn. Deallir bod gwaith tir-lunio wrth Ysgol O M Edwards a gosod sgrin rhwng y ffordd fawr a chae'r ysgol wedi ei gynllunio ar gyfer yr haf.
- ii. Eisteddfod yr Urdd 2014 - bydd y Cynghorwyr yn falch o dderbyn awgrymiadau gan y gymuned ar groesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Amser gorffen: 9.30pm